


Gweithgareddau i bawb

Gweithgareddau neu wybodaeth sy'n cynnwys llai o destun a mwy o strwythur. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys symbolau i helpu cyfathrebu. Gall y gweithgareddau yma fod yn addas i blant mewn ysgolion cynradd neu grwpiau cymunedol. Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio hefyd i roi rhywfaint o strwythur i gynnal dysgwyr hŷn, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn helpu



cynghorau ysgol a grwpiau cyfranogiad cymunedol eraill



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales



Trefnu cyfarfod



Gallwch chi gwrdd â rhywun sydd â chyfrifoldeb a siarad am newid pethau.

e.g.



Er enghraifft, yn yr ysgol gallech chi gwrdd â'ch pennaeth.



Mae cyfarfod yn ffordd dda o esbonio pam rydych chi eisiau creu newid.

++






Hefyd gallwch chi gael gwybod ydy'r newid yma'n bosib.



1



1. Penderfynwch pwy yw'r person gorau i chi gwrdd â nhw.




Gallwch chi glicio yma neu ofyn i oedolyn helpu chi.

2



2. Cysylltwch â'r person rydych chi eisiau cwrdd â nhw.



Weithiau, mae gwybodaeth gyswllt ar gael ar y rhyngwyd.

3





3. Penderfynwch ar le. dvddiad ac amser i avfarfod.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com




Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

4





4. Gwnewch restr o'r pethau pwysig rydych chi eisiau dweud.

5





5. Gwnewch nodiadau yn y cyfarfod i gofio am beth fuoch chi'n siarad.

6



6. Gofynnwch beth fyddan nhw'n gwneud i helpu chi.

7




7. Os byddan nhw'n methu helpu, gwrandewch ar y rhesymau pam.



Falle byddwch chi'n gallu rhoi cynnig ar rywbeth arall i wneud y newid.



Sut i ysgrifennu llythyr neu e-bost



Gallwch chi ysgrifennu llythyr neu e-bost i:

Person yn yr ysgol neu'r gymuned, fel eich pennaeth.

Eich Aelod Senedd Cymru

Eich Aelod Seneddol (AS)

Eich Cynghorydd Lleol neu eich Cynghorydd Cymuned

1



1. Dewiswch y person gorau i ysgrifennu atyn nhw. Gallwch chi





ysgrifennu at fwy nag un person.

2



2. Ysgrifennwch beth rydych chi eisiau ei newid.

3



3. Ysgrifennwch pam rydych chi eisiau i hyn newid. Defnyddiwch



ffeithiau a barn.



4




4. Gwahoddwch y person i gyfarfod neu gofynnwch am lythyr yn ôl.

5




5. Anfonwch gopi o'ch llythyr at Gomisiynydd Plant Cymru.



Mae hynny'n golygu byddan nhw'n gwybod am eich ymgyrch.



Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru



"Mae gennych chi hawl i fynegi barn a bod yn rhan o benderfyniadau"



Cychwyn Deiseb

Beth yw Deiseb?



Mae **deiseb** yn ffordd dda o ddangos bod llawer o bobl am weld newid.



Gallwch chi greu deiseb **ar-lein** neu ar **bapur**.



Bydd yn dweud beth rydych chi eisiau ei newid, ac yna rydych chi'n gwahodd pobl eraill i **lofnodi**.

Sut

mae cychwyn



Deiseb Ar-lein

1.



Gofynnwch i **oedolyn** rydych chi'n trystio, fel athro neu arweinydd grŵp, am gefnogaeth.

2. Gyda'ch gilydd, dewiswch wefan ar gyfer creu eich deiseb. Dyma rai awgrymiadau:

[Change.org](https://www.change.org)

[38 Degrees](https://www.38degrees.org)


[Cynulliad Cymru](https://www.cynulliad.cymru)

3. Gofynnwch i'ch oedolyn eich helpu i **rannu** eich deiseb ar-lein gyda'ch cymuned.

4. Pan fydd digon o bobl wedi llofnodi **anfonwch** eich deiseb. Bydd ein taflen ffeithiau yn eich helpu chi a'ch oedolyn i benderfynu ble dylech chi ei hanfon.

Sut

mae creu



Deiseb Bapur



1. Gofynnwch i **oedolyn** rydych chi'n trystio, fel athro neu arweinydd grŵp, am gefnogaeth.
2. Ysgrifennwch **beth rydych chi eisiau** ei newid.
3. Gofynnwch i bobl yn eich ysgol, eich grŵp neu eich cymuned **lofnodi**.
4. Gofynnwch i'ch **oedolyn** eich helpu i ddarganfod ble dylech chi anfon y ddeiseb. [Bydd ein taflen ffeithiau](#) yn eich helpu chi a'ch oedolyn i benderfynu ble dylech chi ei hanfon.

Awgrym Gwych

Edrychwch ar ein deiseb bapur **enghreifftiol** ar y dudalen nesaf i gael syniadau.

Dyma enghraifft o ddeiseb bapur

DEISEB

Parc Llangwyn - gwaith trwsio a gwella

Parc Llangwyn yw'r unig barc yn y gymuned, ond mae angen ei wella er mwyn i blant a phobl ifanc fedru chwarae ac ymlacio yno. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud bod gan blant a phobl ifanc hawl i ymlacio a chwarae a cael amgylchedd diogel i gwrdd â'u ffrindiau.

Rydyn ni'n galw ar Gyngor Cymuned Llangwyn i wneud y pethau yma:

- Ychwanegu siglen hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.
- Ychwanegu lle i gysgod rhag y glaw gyda seddau i bobl ifanc.
- Trwsio'r llithren a'i gwneud yn ddiogel i blant.


Gofynnwn i chi anfon ymateb aton ni erbyn **1 Mai 2020** - Cyngor Ieuenctid Llangwyn, Stryd y Bryn, Llangwyn, CÔD POST

Llofnodwyd gan:

Enw	Oedran

AWGRYMIADAU GWYCH




- Argraffwch sawl **copi** o'ch deiseb i gael llawer o lofnodion.
- Llungopiwch eich deiseb cyn ei hanfon fel bod gennych chi eich cofnod eich hun.
- Os byddwch chi'n ychwanegu cyfeiriadau at eich deiseb cofiwch weithio gydag **oedolyn** i ofalu bod enwau a chyfeiriadau'n cael eu cadw'n ddiogel.





Y Wasg




Mae papurau newydd, y radio a'r teledu i gyd yn rhan o'r wasg.



Gallwch chi ddweud wrth y wasg am yr hyn hoffwch chi ei newid.





Mae'n ffordd dda i lawer o bobl gweld a chlywed am eich newid.








Dyma rai syniadau i'ch helpu.

1   
1. Meddylwch am bwy fydd â diddordeb.

     
 Mae newyddiadurwyr yn troi eich stori i mewn i adroddiad neu erthygl.

   
 Gallwch gysylltu â newyddiadurwyr ar-lein.

      
 Am fater lleol, efallai byddwch chi'n cysylltu â'ch gwasg lleol.

      
 Am fater mawr, efallai byddwch chi'n cysylltu â'ch gwasg cenedlaethol.

2




2. Ymchwil



Edrychwch



ar-lein



i weld



os gallwch



ddarganfod



stori

debyg.



Efallai



bydd newyddiadurwyr

y



storïau




tebyg



yn hoffi



eich stori




chi.

3



3. Gwybodaeth bwysig i roi i newyddiadurwyr



Dywedwch

wrth y



newyddiadurwr




beth




hoffech

chi



newid.



Dywedwch

wrth y



newyddiadurwr



pam

mae'n



bwysig.



Meddylwch

am



lefydd

gall y




newyddiadurwr




ffilmio.



4



4. Penderfynwch os hoffech chi gael cyfweiliad.



Mewn



cyfweiliad,




dylech

chi



siarad


am y



prif




bwyntiau.



Mewn



cyfweiliad,



dywedwch



eich stori

mewn




ffordd sy'n hawdd



i'w ddeall.

5




5. Meddyliwch am beth hoffech chi wneud nesaf.



Efallai

gallwch chi



ddangos

yr




adroddiad

neu




erthygl

i



bobl eraill.








 Weithiau, ni fydd y newyddiadurwr yn ysgrifennu neu ffilmio eich stori.







 Peidiwch â phoeni, efallai roedd y newyddiadurwr yn rhy brysur.


 Ceisiwch eto tro nesaf!

Gweithgareddau estynedig

Mae rhain yn defnyddio mwy o destun,
ac yn cynnwys mwy o wybodaeth fanwl a
llai o strwythur cynnal ar gyfer
gweithgareddau. Efallai bydd yr
adnoddau yma'n addas ar gyfer pobl
ifanc mewn lleoliadau ysgol uwchradd,
lleoliadau Addysg Bellach, neu grwpiau
cyfranogiad a grwpiau cymunedol i bobl
ifanc. Byddan nhw'n helpu cyngorau
ysgol uwchradd a grwpiau eraill llais y
disgybl mewn ysgolion uwchradd.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Llythyrau a Chyfarfodydd

Ysgrifennu Llythyr neu E-bost

Gall ysgrifennu llythyr fod yn ffordd effeithiol o dynnu sylw at fater, a gallai berswadio person i ymuno â'ch ymgyrch. Os ydych chi'n ysgrifennu at wleidydd gallen nhw godi'r mater yn Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan (Westminster), yn Senedd Cymru, neu'r Cyngor Lleol.

Efallai bydd eich grwp hefyd am ddefnyddio'r llythyr yn gyfle i ofyn am gyfarfod gyda'r person rydych chi eisiau dylanwadu, neu eu gwahodd nhw i ddigwyddiad. Dyma ganllaw ar gyfer ysgrifennu llythyr a threfnu cyfarfod:

1. **Dod o hyd i'r person cywir.** Mae'n gallu bod yn anodd gwybod pwy yw'r person cywir i gysylltu â nhw. Mae rhai materion yng ngofal Aelodau'r Senedd yn San Steffan. Mae rhai'n cael eu cadw yn Senedd Cymru, felly Aelodau Senedd Cymru sy'n gyfrifol amdanyn nhw. Ond mae Cyngorau Lleol hefyd yn gyfrifol am rai materion lleol. Mae rhagor o wybodaeth [ar ein taflen ffeithiau](#), a gallwch chi ofyn am help gan oedolyn cefnogol.
2. **Ymchwilio.** Ymchwiliwch i farn y person ar wahanol faterion. Yna gallwch chi ymdrin â'r mater mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn cytuno â'u pryderon. Yn achos Aelodau Senedd San Steffan, gallwch chi weld eu cofnodion pleidleisio yma: <https://www.theyworkforyou.com/>, a bydd digon o enghreifftiau ohonyn nhw'n siarad ar-lein yn y cyfryngau. Cofiwch gyfeirio [at y daflen ffeithiau](#) pan fyddwch chi'n ymchwilio, a sicrhau eich bod chi'n dod o hyd i ffynonellau gwybodaeth da.
3. **Cynllunio.** Gallech chi ddefnyddio'r cynllun yma ar gyfer eich llythyr:
 - Paragraff 1: Nodwch y mater rydych chi am ei weld yn newid.
 - Paragraff 2: Dywedwch pam y dylai newid, gan ddefnyddio ffeithiau a barn.
 - Paragraff 3: Esboniwch unrhyw atebion neu beth hoffech chi iddyn nhw wneud.

AWGRYM GWYCH: cofiwch anfon copi o'ch llythyr at y Comisiynydd Plant ('cc'), fel bod Sally'n gwybod am eich ymgyrch.

Gallwch chi ofyn i un o'ch cyfoedion neu oedolyn edrych ar eich llythyr. Hefyd mae templedi ar gael ar-lein os ydych chi'n ansicr ble i ddechrau neu eisiau seilio eich llythyr ar enghraifft dda



Trefnu Cyfarfod

Bydd hyn yn eich helpu eich grwp i wahodd gwleidydd neu rhywun arall rydych chi eisiau dylanwadu i gyfarfod. Bydd hyn hefyd yn eich helpu os trefnwch chi gyfarfodydd gyda phobl yn eich cymuned, er enghraifft, **Pennaeth eich Ysgol** neu aelodau o **Gorff Llywodraethu ysgol**, **arweinydd cymunedol** neu **arweinydd busnes**.

1. **Gofalwch eich bod chi'n ddiogel.** Rhewch wybod i oedolyn rydych chi'n trystio a thrafodwch y cyfarfod gyda nhw cyn i unrhyw gyfarfod ddigwydd.
2. **Pryd a ble.** Os ydy'ch grwp yn gwahodd person i gyfarfod, sicrhewch fod y cyfarfod yn digwydd rhywle diogel, ac ei fod e'n hawdd ac yn ddiogel i'w deithio ato. Gwnewch yn siwr eich bod chi'n trafod gydag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw. Gallen nhw fynd gyda chi.
3. **Byddwch yn strategol.** Penderfynwch beth yw'r brif neges rydych chi eisiau ei throsglwyddo am y mater, a sut byddwch chi'n perswadio'r cynrychiolydd i greu newid. Byddwch chi am sicrhau eich bod chi'n gwybod cymaint â phosibl am y mater er mwyn gallu deall effaith newidiadau. Er enghraifft, os ydych chi'n gwybod y byddai agor cyfleuster ynni gwyrdd yn eich ardal yn creu 500 o swyddi newydd, gallwch chi ddefnyddio hynny fel ymateb os bydd cynrychiolydd yn dadlau yn erbyn cau pwerdy anghynaliadwy oherwydd bydd 300 o swyddi'n cael eu colli.
4. **Defnyddiwch ddigwyddiad.** Oes yna ddigwyddiad ymgyrchu y gallech chi ei drefnu neu ei ddefnyddio, er enghraifft gwasanaeth, arddangosfa gelf neu berfformiad cerddorol? Allech chi wahodd y person a chyfarfod gyda nhw wedyn?
5. **Cynllunio rolau.** Sicrhewch fod eich grwp yn cytuno ar eich rolau a phwy sy'n dweud beth ymlaen llaw, er mwyn bod mor drefnus â phosibl. Efallai byddwch chi am ethol cadeirydd. Cofiwch wrando a chydabod eu pwyntiau yn hytrach na phregethu arnyn nhw am beth dylen nhw wneud, byddwch chi'n fwy llwyddiannus os gallwch chi eu perswadio, fel eu bod nhw'n cytuno â chi.
6. **Cymryd cofnodion.** Mae cofnodion yn nodi beth sy'n cael ei drafod neu ei gytuno. Penderfynwch pwy fydd yn cymryd y cofnodion ac yn nodi popeth sy'n digwydd.

Cychwyn Deiseb

Mae llawer o bobl yn gallu creu newid

Mae 'lobïo' yn golygu defnyddio eich barn i geisio **perswadio** pobl i weithredu neu wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gallech chi lobïo eich cyngor cymuned i sefydlu grŵp ieuenctid, neu lobïo Aelod Senedd Cymru i newid cyfraith.

Mae cychwyn **deiseb** ar fater rydych chi'n teimlo'n angerddol amdano yn ffordd dda o wneud hyn. Deiseb yw datganiad wedi'i lofnodi gan lawer o bobl. Gallwch chi greu un ar **bapur** neu **ar-lein**. Bydd eich deiseb yn dweud yn glir beth rydych chi eisiau ei newid, ac yna'n dangos rhestr o bobl sy'n cytuno. Mae deisebau'n cynyddu ymwybyddiaeth o broblemau ac yn dangos bod llawer o bobl yn teimlo'n gryf am fater penodol ac eisiau creu newid.

Dyma rai awgrymiadau gwyhych ar gyfer cychwyn deiseb:

1. **Ydy'r mater yn effeithio ar lawer o bobl?** Ystyriwch ydych chi'n meddwl bod hwn yn fater digon mawr i lawer o bobl lofnodi. Os ydych chi'n meddwl bydd y ddeiseb yn fach, efallai bydd llythyr neu ddatganiad i'r wasg yn cael mwy o sylw ac yn fwy effeithiol.
2. **Deiseb bapur?** Gallai rhai materion cymunedol fod yn fwy addas ar gyfer deiseb bapur, er enghraifft, petaech chi am anfon deiseb at grŵp cymunedol, neu Gorff Llywodraethu neu Bennaeth eich ysgol. Os felly, gallwch chi ddefnyddio ein canllaw [a'n hesiampl o ddeiseb bapur](#). Os byddwch chi'n llunio deiseb bapur gallech chi ystyried ffordd wahanol o gasglu llofnodion, er enghraifft gallech chi drefnu stondin gyda baner i dynnu sylw, a thrafod y mater wyneb yn wyneb. Gallech chi hefyd ystyried argraffu taflenni i roi gwybod i bobl am y mater, a chynyddu ymwybyddiaeth o'ch ymgyrch.
3. **Deiseb Ar-lein?** Os byddwch chi'n meddwl bod deiseb ar-lein yn fwy addas i'ch mater chi, dewch o hyd i safle addas. Mae [Change.org](#) a [38 Degrees](#) yn safleoedd



mawr gyda llawer o nodweddion i gefnogi eich ymgyrch, neu gallwch chi greu deiseb i Senedd Cymru yn uniongyrchol ar eu [gwefan](#). Gallech chi ofyn i athro, arweinydd grŵp neu oedolyn rydych chi'n trystio am help i drefnu hyn.

4. **Beth yn union rydych chi eisiau?** Byddwch yn glir ac yn gryno am y newid yr hoffech chi ei weld, er enghraifft, yn hytrach na dweud "gwella ein cludiant cyhoeddus" gwnewch awgrymiadau fel "creu cludiant cyhoeddus rhatach a mwy cyson rhwng Aberystwyth a Thregaron, a buddsoddi mewn cerbydau mwy gwyrdd".
5. **Pam mae hyn yn bwysig?** Defnyddiwch dystiolaeth i berswadio pobl i lofnodi, er enghraifft, gallech chi ddyfynnu lefelau llygredd yn y ddinas, neu sut mae cost trafnidiaeth yn effeithio ar eich dewisiadau.
6. **Sut mae cael cefnogaeth?** Rhannwch eich deiseb yn eang ar-lein i gael cynifer o lofnodion â phosib. Gallech chi bostio'r ddeiseb i grwpiau cymunedol ar Facebook, annog eich cyfoedion i rannu'r ddeiseb, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ofyn i bobl sydd â llawer o ddilynwyr (er enghraifft pobl enwog) wneud hynny hefyd.
7. **Ble dylech chi anfon eich deiseb?** Dewch o hyd i'r lle cywir i gyflwyno'r ddeiseb; [gallwch chi ddefnyddio ein taflen ffeithiau](#) i'ch helpu gyda hyn. Bydd athro, arweinydd grŵp neu oedolyn rydych chi'n trystio hefyd yn gallu eich cefnogi i anfon eich deiseb i'r lle cywir.

DEISEB

Parc Llangwyn - gwaith trwsio a gwella

Parc Llangwyn yw'r unig barc yn y gymuned, ond mae angen ei wella er mwyn i blant a phobl ifanc fedru chwarae ac ymlacio yno. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud bod gan blant a phobl ifanc hawl i ymlacio a chwarae a cael amgylchedd diogel i gwrdd â'u ffrindiau.

Rydyn ni'n galw ar Gyngor Cymuned Llangwyn i wneud y pethau yma:

- Ychwanegu siglen hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.
- Ychwanegu lle i gysgodi rhag y glaw gyda seddau i bobl ifanc.
- Trwsio'r llithren a'i gwneud yn ddiogel i blant.

Gofynnwn i chi anfon ymateb aton ni erbyn **1 Mai 2020** - Cyngor Ieuenctid Llangwyn, Stryd y Bryn, Llangwyn, CÔD POST

Llofnodwyd gan:

Enw	Oedran

AWGRYMIADAU GWYCH

- Argraffwch sawl **copi** o'ch deiseb i gael llawer o lofnodion.
- Llungopiwch eich deiseb cyn ei hanfon fel bod gennych chi eich cofnod eich hun.
- Os byddwch chi'n ychwanegu cyfeiriadau at eich deiseb cofiwch weithio gydag **oedolyn** i ofalu bod enwau a chyfeiriadau'n cael eu cadw'n ddiogel.



Awgrymiadau gan ein fîm cyfathrebu

Gallai ennyn diddordeb papur newydd, neu raglen newyddion ar y teledu neu'r radio, yn y mater sydd gennych dan sylw, fod yn ffordd wych o roi gwybod i lawer o bobl eraill amdano fe.

Os oes gennych chi 'alwad i weithredu', h.y. rhywbeth rydych chi eisiau i bobl ei wneud, gallai stori yn y newyddion fod yn help mawr. Er enghraifft, efallai eich bod chi eisiau i bobl lofnodi eich deiseb neu ymuno â phrotest, ac os byddan nhw'n clywed amdano neu'n ei weld yn y newyddion, byddwch chi'n fwy tebygol o gael effaith.

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi.

Meddylwch am ble bydd eich stori'n mynd

Ydy'r mater hwn yn rhywbeth fydd o ddiddordeb i bobl yn eich ardal chi yn unig? Os ydyw, efallai byddwch chi'n meddwl mai'r papur lleol yw'r lle gorau ar gyfer eich stori. Os ydych chi'n meddwl y gallai fod o ddiddordeb i fwy o bobl, efallai byddwch chi am gysylltu â phapur newydd cenedlaethol neu raglen newyddion ar y teledu/radio hefyd.

Fe gewch chi hyd i'w rhif ffôn neu eu cyfeiriad e-bost ar eu gwefan, neu gallech chi geisio cysylltu â nhw trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Ymchwil

Edrychwch ar-lein i weld allwch chi ddod o hyd i storïau tebyg i'ch un chi.

Os bydd enw newyddiadurwr yn ymyl y stori neu'r storïau y dewch chi o hyd iddyn nhw, gallen nhw fod yn lle da i ddechrau. Oherwydd eu bod nhw wedi ysgrifennu am fater tebyg o'r blaen, gallai olygu eu bod nhw'n fwy tebygol o gymryd diddordeb yn eich mater chi.

Cyfleu'r wybodaeth

Cyn cysylltu â newyddiadurwr, meddylwch am rywfaint o'r wybodaeth mae angen i chi ei throsglwyddo:

- Crynowch eich mater neu eich stori er mwyn cyfleu'r prif bwyntiau
- Oes unrhyw beth penodol yn digwydd y gallen nhw ei ddefnyddio i drafod y mater? Er enghraifft, efallai eich bod chi wedi cychwyn deiseb neu drefnu protest.
- Pwy sy'n ymwneud â'r mater yma?
- Fyddan nhw'n gallu cynnal cyfweiliad â rhywun sy'n rhan ohono? Cofiwch wirio gyda phobl eu bod nhw'n fodlon cael eu cyfweld cyn dweud 'ie' wrth y newyddiadurwr
- Os ydych chi'n siarad â rhaglen newyddion ar y teledu, fydd yna unrhyw beth diddorol iddyn nhw ei ffilmio? Meddylwch sut gallai eich stori neu eich fater weithio ar y teledu.

Cael eich cyfweld

- Os ydych chi wedi cytuno i gael cyfweiliad, meddyliwch am y prif bwyntiau rydych chi am eu cyfleu, a cheisiwch eu dweud nhw yn y ffordd fwyaf eglur, syml a chryno posibl. Cofiwch y gallai eich cynulleidfa wybod llawer llai am y mater yma na chi.

Ar ôl cyhoeddi

- Mae popeth, fwy neu lai, ar-lein erbyn hyn, felly ar ôl i'ch stori gael ei chyhoeddi, meddyliwch allech chi ddefnyddio hynny i'w rhannu'n uniongyrchol â phobl, e.e. trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu e-bost.